# Llwybr y bodhisattva: gwybodaeth gefndirol

Mewn Bwdhaeth, goleuedigaeth yw'r statws ysbrydol eithaf. Fodd bynnag, mae'r pwyslais mewn Bwdhaeth Mahayana yn gyffredinol ar lwybr y bodhisattva ('bod sydd â doethineb yn hanfod iddo') neu, yr hyn y mae Snelling yn ei alw'n 'arwr ysbrydol' – mewn cyferbyniad â llwybr yr arhat – sy'n cael ei ystyried yn llwybr i oleuedigaeth. Yn ôl syniadaeth Mahayana, mae'r 'natur-Bwdha' (tahagata garbha) yn gynhenid. Fodd bynnag, mae angen ysgogiad ar hon er mwyn dechrau'r llwybr bodhisattva. Mae'r 'deffroad' neu'r ysgogiad hwn yn effeithio'r hyn sy'n cael ei adnabod fel y bodhicitta ('ymwybod deallusrwydd').

Unwaith mae'r 'ymwybod deallusrwydd' wedi deffro, bydd y bodhisattva'n mynd ymlaen i ymgymryd â llwon personol (**pranidhana**). Mae Vasubandhu yn rhestru deg llw sy'n gyffredin i bob bodhisattva, ond fe ddyheuir am y rhain nid iddyn nhw eu hunain yn unig, ond i'w rhannu gyda phob bod arall. Y llw mwyaf enwog yw'r un lle mae'r bodhistattva'n gwneud ei ddatganiad eithaf o dosturi ac anhunanoldeb. Mae'r addewid hwn yn gwneud yr unigolyn yn wir bodhisattva. Mae llw ynddo i ymdrechu am oleuedigaeth ond i beidio â mynd i mewn i oleuedigaeth lawn a chyflawn pan fydd pob bod arall wedi dod yn oleuedig. Felly, ar bwynt goleuedigaeth, bydd y bodhisattva'n gwneud yr aberth eithaf ac yn dychwelyd at fyd y samsara i helpu bodau eraill.

Yn gyntaf, rhaid i'r Bodhisattva fynd trwy gyfres o ddeg **bhumi** (cam), pob un ohonynt â pherffeithder paralel (**paramita**). Y rhain yw:

### (1) Hyfrydwch a llawenydd

Ar y cam hwn, mae perffeithder haelioni (**dana**) yn cael ei gynhyrchu er budd eraill. Bydd pob haeddiant yn cael ei gasglu a'i fuddsoddi yn y dyhead y bydd ef ac eraill yn cyrraedd Bwdhadod (Buddhahood) yn y dyfodol.

### (2) Purdeb

Ar y cam hwn, mae pob gweithred yn ddigymell o bur ac mae rhinwedd foesol (**sila**) yn cael ei pherffeithio. Delweddir Bwdhau nefolaidd mewn myfyrdodau.

### (3) Disgleirdeb

Caiff amynedd (**ksanti**) ei berffeithio ar y cam hwn trwy fyfyrio am dosturi. Mae amynedd yn helpu un i barhau i ddirnad y dhamma dwys.

### (4) Enyniad

Yma dyweder bod y bodhi yn puro'n difa holl olion anwybodaeth a chaiff bywiogrwydd (**virya**) ei berffeithio. Ar y cam hwn, gall ymarferydd gael ei ordeinio a dilyn saith categori'r rhinweddau. Y seithfed categori yw'r llwybr wythblyg.

### (5) Anodd iawn ei orchfygu

Ar y cam hwn, mae mewnwelediad yn uchel iawn ac mae perlewygon myfyriol (**dhyana**) yn cael eu

perffeithio; fel yr ysgrifenna Suzuki, 'mae'r Bodhisattva wedi datblygu grym deallusol i dreiddio'n ddwfn i'r system o fodolaeth'.

**(6) Ymddangos (Manifest)**

Caiff doethineb (**prajna**) ei berffeithio ac mae gan y bodhisattva'r gallu i weld i mewn i wneuthuriad bodolaeth a chanfod bod ei wir natur yn 'wag' o hanfod. Wrth brofi hyn, mae'r bodhisattva hefyd yn myfyrio ar dynged bodau eraill sy'n gaeth yn samsara. Ar y cam hollbwysig hwn, mae'r bodhisattva, sydd yn awr yn gydradd ag arhat, yn gwneud y penderfyniad i ddychwelyd i samsara er mwyn bodau eraill.

**(7) Mynd yn bell i ffwrdd**

Defnyddir dulliau medrus (**upaya kausalya**) ar y cam hwn ac mae'r bodhisattva'n gallu gosod ei hun mewn gwahanol fydoedd i helpu a dysgu eraill. Mae'n ymarfer deg rhinwedd perffeithder yn ddiflino.

**(8) Ansymudol**

Ni all bodhisattva syrthio'n ôl o'r cam hwn. Dyma'r cam lle caiff pob dymuniad a dyhead am Fwdhadod eu dileu o'r isymwybod. Ysgrifenna Suzuki, 'Mae'r ymdrechu ymwybodol sy'n nodweddu ei holl lwybr blaenorol wedi ildio i gyflwr o weithgaredd digymell, o ddiniweidrwydd sanctaidd, ac o chwaraegarwch dwyfol. Mae'n ewyllysio a chaiff ei gyflawni. Mae'n dyheu a chaiff ei wireddu.'

**(9) Deallusrwydd da**

Mae'r bodhisattva'n dod i feddu ar bedair gwybodaeth gyflawn a chynhwysfawr: natur pethau mewn cyflwr gwag; eu nodweddion unigol fel y maen nhw'n destun ailenedigaeth; eu natur annistrywiol y tu hwnt i ddeuoliaeth; a'u trefn dragwyddol a'u gwerth cynhenid.

**(10) Cymylau dharma**

Yma mae'r wybodaeth (**jnana**) yn gyflawn. Caiff y bodhisattva ei amgylchynu gan bodhisattvau llai ac mae Bwdhau'n cynnig bendithion wrth baratoi am y Bwdhadod terfynol.